**Gwybodaeth am y prosiect**

**Ysgoloriaeth YGGCC yr ESRC ym maes Iechyd, Lles a Gwyddor Data**

Mae'n bleser gan yr Adran Gyfrifiadureg ym Mhrifysgol Aberystwyth gynnig ysgoloriaethau Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru (YYGGCC) a gyllidir yn llawn gan ddechrau ym mis Hydref 2024.

Mae gan yr adran arbenigedd helaeth mewn gwyddor data a gymhwysir i iechyd a lles. Gallai rhai syniadau prosiect penodol gynnwys a) dull sy'n seiliedig ar fodel o lywio gwybodaeth trwy ail-gynrychioli hanes claf dros fodel o'r corff dynol; b) cynllunio ar sail data ar gyfer datblygu'r gweithlu gofal iechyd; c) ystyried agweddau lles ar reoli gwastraff mewn ardaloedd trefol a gwledig; ch) deall y berthynas rhwng achos ac effaith ym maes lles; d) gweithredu a gwerthuso agweddau ar fodel cymdeithasol o iechyd a lles; dd) integreiddio data cleifion a gofal cymdeithasol tuag at well gofal cleifion; neu e) modelu ar ryngwyneb straen gweledol, astheteg adeiledig a blinder gweledol sy'n gysylltiedig â gwaith. Os hoffech drafod/datblygu'r syniadau hyn, cysylltwch â'r Athro Reyer Zwiggelaar (rrz@aber.ac.uk) yn y lle cyntaf, a fydd yn eich rhoi mewn cysylltiad â goruchwylwyr perthnasol. Os hoffech drafod syniadau eraill, mae croeso i chi gysylltu â'r Athro Reyer Zwiggelaar yn rrz@aber.ac.uk.

**Hyd y cyfnod astudio:**

Mae hyd y cyfnod astudio yn dibynnu ar brofiad ymchwil blaenorol ac anghenion hyfforddiant a fydd yn cael eu hasesu drwy gwblhau Dadansoddiad o Anghenion Datblygu Cychwynnol ar y cam ymgeisio, a Dadansoddiad o Anghenion Datblygu Llawn cyn ei ddyfarnu os yn llwyddiannus.

Gall hyd y dyfarniad amrywio o 3.5 i 4.5 mlynedd amser llawn (neu gymhwyster rhan-amser cyfatebol).

Gall hyn gynnwys:

- rhaglen 1+3.5 – cefnogaeth ar gyfer graddau PhD a Meistr hyfforddiant ymchwil, yn enwedig pan nodir hynny gan nodau CAaCh ac Ehangu Cyfranogiad YGGCC

**Ymchwil mewn lleoliad ymarfer**:

Mae'n ofynnol i bob myfyriwr a gyllidir gan YGGCC gwblhau lleoliad Ymchwil mewn Ymarfer wedi'i gyllido o dri mis i gyd. Bydd pob myfyriwr yn cael cyfle i gwblhau lleoliad yn y byd academaidd, polisi, busnes neu sefydliadau cymdeithas sifil.

**Meini Prawf Mynediad:**

I dderbyn cyllid ysgoloriaeth YGGCC, rhaid bod gennych gymwysterau neu brofiad sy'n gyfwerth â gradd anrhydedd ar lefel dosbarth cyntaf neu ail ddosbarth uwch, neu radd meistr o sefydliad ymchwil academaidd yn y Deyrnas Unedig. Mae croeso i fyfyrwyr sydd o gefndiroedd academaidd anhraddodiadol i wneud cais hefyd.

**Gofynion iaith Saesneg** Rhaid i ymgeiswyr nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf gael sgôr o 6.0 o leiaf mewn prawf IELTS (gyda dim llai na 5.5 ym mhob elfen).

Darllenwch ein Gofynion iaith Saesneg am fwy o fanylion.

**Pwy fydd yn gymwys:**

Mae ysgoloriaethau YGGCC ar gael i fyfyrwyr cartref a rhyngwladol. Gall hyd at 30% o'n carfan gynnwys myfyrwyr rhyngwladol.

Dylai ymgeiswyr fodloni gofynion cymhwysedd UKRI. Mae YGGCC wedi ymrwymo i gefnogi a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywioldeb a chreu amgylchedd cynhwysol i bawb. Rydym yn croesawu ceisiadau gan bob aelod o'r gymuned fyd-eang waeth beth fo'u hoedran, anabledd, rhyw, hunaniaeth rhywedd, ailbennu rhywedd, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth, hil, crefydd neu gred na chyfeiriadedd rhywiol.

Rydym yn croesawu ceisiadau ar gyfer astudio'n llawn amser ac yn rhan-amser.

**Asesu:**

Hoffem atgoffa ymgeiswyr i gyflwyno'r holl ddogfennau perthnasol (trawsgrifiadau, datganiad ategol, ac ati) erbyn y dyddiad cau. Oherwydd nifer y ceisiadau a dderbynnir, ni fydd ceisiadau anghyflawn yn cael eu hystyried.

Bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Yn rhan o'r broses gyfweld, gofynnir i ymgeiswyr roi cyflwyniad byr ac ateb cyfres o gwestiynau panel sy'n gyson ag arfer blaenorol ar y llwybr yn ystod Partneriaeth Hyfforddiant Doethurol Cymru ac wedi'u llywio gan ymrwymiadau YGGCC ar CAaCh.

Bydd cyfweliadau'n cael eu cynnal yn rhithiol drwy Teams (neu Zoom os bydd angen).

Gall ymgeiswyr ddisgwyl clywed canlyniad eu cyfweliad o fewn 8 wythnos.

**Sut i wneud cais:**

Dylai'r ceisiadau ddod i law erbyn 12/01/2024 fan bellaf gan gynnwys yr holl ddogfennau angenrheidiol.

Dylai pob cais gael ei gyflwyno drwy [https://www.aber.ac.uk/en/study-with-us/pg-studies/apply/](https://www.aber.ac.uk/en/study-with-us/pg-studies/apply/)

Bydd y cais yn gofyn i chi nodi opsiynau cyllido - nodwch ESRC YGGCC er mwyn i ni allu adnabod eich cais o gyfleoedd cyllido eraill.

Yn ogystal â gofynion y llwybr, cofiwch gynnwys y dogfennau canlynol gyda'ch cais:

**1) Llythyr cyflwyno (uchafswm o ddwy dudalen)**

Rhaid i'r llythyr cyflwyno gynnwys y pwyntiau bwled canlynol fel is-benawdau:

• Nodwch eich rhesymau a'ch cymhelliant dros wneud cais i astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth, a'r llwybr Iechyd, Lles a Gwyddor Data.

• Rhowch fanylion eich dealltwriaeth, a'ch disgwyliadau o ran astudiaeth ddoethurol.

• Rhowch fanylion am eich diddordebau academaidd yn gyffredinol, ac yn arbennig y rhai sy'n ymwneud â'ch ymchwil arfaethedig.

• Gan dynnu ar eich cefndir eich hun (gan gynnwys eich profiadau bywyd, taith i/drwy'r brifysgol, profiadau gwaith neu wirfoddoli) rhowch grynodeb o pam eich bod yn barod i ymgymryd ag ymchwil PhD nawr a sut y byddwch yn ffynnu o ganlyniad i gyllid PhD. Efallai y byddwch yn cynnwys, er enghraifft, heriau personol yr ydych wedi'u goresgyn neu gyflawniadau yr ydych yn falch ohonynt yn

eich gwaith, eich astudiaethau neu brofiadau bywyd a sut mae'r rhain yn cyd-gysylltu â'r sgiliau sydd eu hangen i ffynnu mewn rhaglen PhD. Gallai heriau gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, nodweddion gwarchodedig, statws economaidd-gymdeithasol a bod yn ddarpar fyfyriwr cenhedlaeth gyntaf neu â phrofiad o fod mewn gofal.

• Gan fyfyrio ar eich cefndir a/neu ddull arfaethedig o astudio PhD a'r cyfleoedd y bydd yn eu cyflwyno, sut y byddwch yn cefnogi amrywiaeth a chynhwysiant yn y gymuned PhD?

**2) CV academaidd (uchafswm o ddwy dudalen)**

**3) Cynnig ymchwil - Uwchlwythwch fel dogfen ategol i'r cais**

Dylai'r cynnig fod hyd at 1000 o eiriau, heb gynnwys cyfeiriadau llyfryddiaethol. Rydym yn argymell eich bod yn defnyddio'r pum pennawd canlynol yn eich cynnig ymchwil:

• Teitl, amcanion a diben yr ymchwil;

• Trosolwg byr o'r testunau academaidd sy'n berthnasol i'ch maes;

• Cynllun/dulliau arfaethedig;

• Cyfraniadau academaidd eich ymchwil.

• Cyfeiriadau Llyfryddiaethol

**4) Dau eirda academaidd neu broffesiynol**

Rhaid i ymgeiswyr gysylltu â chanolwyr eu hunain a chynnwys geirdaon gyda'u cais. Rhaid i'r geirda fanylu ar gryfderau ymchwil yr ymgeisydd.

**5) Tystysgrifau gradd a Thrawsgrifiadau (gan gynnwys cyfieithiadau os yw'n berthnasol)**

**6) Os yw'n berthnasol, prawf o Gymhwysedd Iaith Saesneg (gweler gofynion sefydliadol ar gyfer mynediad)**

**Cyllid:**

Mae'r ysgoloriaeth a gyllidir gan yr ESRC yn talu am ffioedd dysgu, cyflog byw di-dreth blynyddol yn unol ag isafswm cyfraddau UKRI (£18,622 ar hyn o bryd) ac mae'n cynnwys mynediad at Grant Cymorth Hyfforddiant Ymchwil.

Os oes gennych anabledd, mae'n bosibl y bydd gennych hawl i Lwfans Myfyrwyr Anabl (LMA) ar ben eich ysgoloriaeth.